# Diweddariad Cofrestr Risg PPC – Medi 2021, CBLI

| Risg | Ffocws y Risg | Targed Sgôr y Risg | Sgôr Risg Presennol | Statws Presennol | Corff Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| T.1 | PPC yn methu â chynnal a meithrin arbenigedd a gwybodaeth briodol ymysg staff perthnasol | 3 | 3 | 👍 | GS | • Mae'r sgôr risg cyfredol wedi'i ostwng i 3, yn unol â'r sgôr targed<br>• Mae'r rhesymau allweddol am ei ostwng fel a ganlyn:<br>○ hyfforddiant anwytho bellach wedi'i ddarparu i holl aelodau'r CBLl, gydag adborth positif iawn<br>○ mae digwyddiadau hyfforddiant eraill, yn unol â'r cynllun hyfforddiant, wedi cael eu cynnal yn rhithiol drwy gydol y cyfnod COVID |
| T.2 | PPC yn gwneud penderfyniadau amhriodol neu anamserol | 4 | 4 | 👍 | GS | • Dim diweddariadau o bwys |
| T.3 | PPC yn methu â denu, penodi a chadw staff, cyflenwyr a darparwyr. | 4 | 4 | 👍 | GS | • Dim diweddariadau o bwys |
| T.4 | Risg gyda Staff Allweddol yn yr Awdurdod Lletya | 10 | 10 | 👍 | GS | • Mae'r sgôr targed wedi'i ostwng i 10, am fod y gyfradd tebygolrwydd wedi'i gostwng o 3 i 2 - golyga hyn fod y sgôr presennol bellach ar darged<br>• Y rheswm allweddol pam fod y gyfradd tebygolrwydd wedi'i gostwng yw bod rheolaethau risg ychwanegol wedi cael eu hychwanegu, megis adnabod adnoddau sgiliedig yn PPC a chan drydydd partïon y gellid eu defnyddio i lenwi unrhyw fylchau adnodd tymor byr-canolig yn yr Awdurdod Lletya |
| C.1 | PPC yn methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'i fudd-ddeiliaid mewnol. | 4 | 8 | 👎 | GS | • Ni fu unrhyw newid i'r sgôr risg ers yr adolygiad diwethaf.<br>• Rhagwelir unwaith y bydd cynrychiolaeth aelodau'r cynllun wedi'i weithredu (hyn yn mynd rhagddo), bydd y sgôr risg yn cael ei ostwng i 4 ac 'ar darged' |
| C.2 | PPC yn methu cyfathrebu ac ymgysylltu'n effeithiol â'i fudd-ddeiliaid allanol | 4 | 4 | 👍 | GS | • Mae'r gyfradd difrifoldeb ar y risg hwn wedi cynyddu i 4 ar gyfer y sgôr targed a'r sgôr presennol<br>• Y rheswm allweddol am y cynnydd yn y gyfradd difrifoldeb yw'r asesiad diwygiedig o'r effaith y gallai cyfathrebu aneffeithiol ei gael ar enw da a gweithrediad y Bartneriaeth |
| C.3 | Nid yw cyngor a gwybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n gymorth i wneud penderfyniadau | 4 | 4 | 👍 | GS | • Mae'r gyfradd difrifoldeb ar y risg hwn wedi cynyddu i 4 ar gyfer y sgôr targed a'r sgôr presennol<br>• Y rheswm allweddol am y cynnydd yn y gyfradd difrifoldeb yw'r asesiad diwygiedig o'r effaith y gallai cyfathrebu aneffeithiol ynghylch cyngor/gwybodaeth ei gael ar enw da, gweithrediad a chyllid y Bartneriaeth |